# *Diweddglo: Safbwynt yr Ysgolion*

YR ATHRO JOHN FURLONG
*Prifysgol Rhydychen*

Fel y nodwyd yn nhestun Golygyddol y rhifyn arbennig hwn, mae gan y newidiadau i addysg gychwynnol i athrawon (AGA) sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd o ganlyniad i'r Meini Prawf Achredu newydd (Llywodraeth Cymru, 2017) oblygiadau sylweddol i ysgolion a phrifysgolion. Y nod yw datblygu model darpariaeth newydd sy'n llawer mwy cydweithredol. Dim ond trwy weithio'n agos yn y modd hwn y gall Partneriaethau sicrhau bod y rhaglenni a gynigir ganddynt yn cyflawni amcan y Meini Prawf sef bod yn 'fanwl ymarferol ac yn her ddeallusol ar yr un pryd' (t. 4).

Fel yr eglura'r Meini Prawf eu hunain, mae goblygiadau'r diwygiadau ar gyfer prifysgolion yn arwyddocaol. O ystyried bod rhaid i lawer iawn o'r gwaith ymarferol o baratoi athrawon dan hyfforddiant gynnwys ysgolion yn uniongyrchol erbyn hyn, mae angen i brifysgolion ddatblygu dealltwriaeth fwy eglur o lawer o natur eu cyfraniad *penodol* nhw at ddysgu proffesiynol. Mae'r Meini Prawf yn mynnu mai gorchwyl prifysgolion yw darparu mathau o wybodaeth broffesiynol nad ydynt ar gael ym mhob ysgol o reidrwydd – hynny yw, gwybodaeth sy'n deillio o waith ymchwil, damcaniaeth, ac arferion da ledled Cymru ac yn rhyngwladol. Ond er mwyn cyfrannu yn y modd hwn, mae angen i brifysgolion sicrhau bod ganddynt strwythurau staffio a pholisïau datblygu staff priodol ar waith. Fel y nododd Furlong (2015) yn *Addysgu Athrawon Yfory*, mewn llawer o achosion, yr oedd prifysgolion Cymru ymhell o fodloni'r amodau hyn ar y pryd.

Ond mae'r Meini Prawf yn galw am swyddogaeth wahanol iawn i ysgolion. Mae angen i ysgolion ddod yn bartneriaid llawn a chyfartal â phrifysgolion wrth gynllunio a chyflwyno rhaglenni. Mae swyddogaeth ysgolion yn cynllunio'r rhaglen gyfan ar y cyd yn hynod bwysig – os nad yw hyn yn digwydd yn rheolaidd fel mater o drefn, ni fydd modd cynnal y dull cydweithredol dros amser. Yn ei dro, mae hynny'n golygu bod

*https://doi.org/10.16922/wje.22.1.13*

angen i staff ysgolion fod yn ganolog i strwythurau rheoli ac arweinyddiaeth rhaglenni. Er mwyn cydweithredu yn y modd hwn, bydd angen newid diwylliant arwyddocaol mewn prifysgolion, hynny ar ôl blynyddoedd lawer o reoli'r broses. Ond bydd angen i ysgolion newid diwylliant hefyd. Mae'n rhaid iddynt dderbyn eu bod yn atebol bellach am raglenni yn eu cyfanrwydd ac nid am ddarparu cyfleoedd ar gyfer 'ymarfer addysgu' yn unig.

Felly, mae angen i'r ddau bartner newid mewn ffordd radical. Ond sut mae ysgolion wedi ymateb? Yn yr adran olaf hon o'n rhifyn arbennig rydym wedi cynnwys tri darn byr gan uwch ymarferwyr sydd wedi bod yn rhan bwysig o'r broses ddiwygio dros y ddwy flynedd diwethaf. Penaethiaid sy'n gyfrifol am ddau o'r cyfraniadau, ac uwch fentor sy'n gyfrifol am y llall. Mae'r cyfraniad cyntaf wedi'i ysgrifennu gan Eithne Hughes a oedd yn bennaeth Ysgol Bryn Elian, ysgol uwchradd ym Mae Colwyn, tan yn ddiweddar. Mae Eithne wedi gwneud cyfraniad allweddol at ddatblygu'r rhaglenni newydd yn y Gogledd a gynigir gan Bartneriaeth Caban; partneriaeth sy'n cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Caer a'r consortia rhanbarthol, GwE. Mae'r ail gyfraniad wedi'i ysgrifennu gan Jon Murphy, Pennaeth Ysgol Gynradd Llanffwyst Fawr, y Fenni. Mae Llanffwyst Fawr yn 'ysgol bartner arweiniol' ym Mhartneriaeth Caerdydd sy'n dwyn ynghyd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac ysgolion ledled y de. Mae'r cyfraniad olaf gan Rhonwen Morris, Dirprwy Bennaeth Ysgol y Preseli, Sir Benfro. Mae Rhonwen wedi bod yn uwch fentor ym Mhartneriaeth yr Athrofa sy'n cynnwys Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac ysgolion ar hyd a lled y de a'r gorllewin. Hefyd, mae'n gyd-gadeirydd y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol ac yn aelod o Fwrdd Gweithredol yr Athrofa.

Felly, mae pob un o'r cyfranwyr wedi ymwneud â'r broses ddiwygio mewn ffyrdd gwahanol. Yn y papurau byr hyn, mae pob un yn adrodd ei 'hanes' ei hun ac yn mynegi eu dyheadau ar gyfer y dyfodol – eu dyhead ar gyfer AGA a'r proffesiwn addysgu yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae'r tri chyfraniad yn darparu gwybodaeth unigryw am sut mae'r proffesiwn ei hun yn ymateb i'r newidiadau radical y mae'r rhifyn arbennig hwn yn canolbwyntio arnynt.

## *Cyfeiriadau*

Furlong, J. (2015). *'Addysgu Athrawon Yfory; opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru'* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2017). *Meini prawf ar gyfer achredu Rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru: Addysgu Athrawon Yfory.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 284 12/05/2020 09:28

# *Datblygu cymunedau dysgu ar gyfer athrawon newydd*

YR ATHRO EITHNE HUGHES
*Prifysgol Bangor a chyn bennaeth Ysgol Bryn Elian*

CRYNODEB

Yn ein system addysg ddatganoledig yng Nghymru, mae'r dirwedd addysgol yn newid. O ganlyniad, mae angen i bob un ohonom weithredu mewn ffordd ddeallus er mwyn ail-greu ac ail-lunio'r map addysgol. Mae'r diwygiadau a amlinellir yn *Cenhadaeth Ein Cenedl* (Llywodraeth Cymru, 2017) yn bellgyrhaeddol ac yn hollgynhwysol, gan drawsnewid meysydd cyfarwydd fel y Cwricwlwm Cenedlaethol, safonau proffesiynol, atebolrwydd, cymwysterau a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA), i enwi ond rhai. Er mwyn cyflwyno'r newidiadau hyn ar lefel ysgol a SAU, roedd yn hanfodol i ni dderbyn cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer datblygu gweithlu cydlynol, proffesiynol a medrus trwy ddatblygu cymunedau dysgu, gan ddechrau gyda phobl sy'n newydd i'r proffesiwn.

**Geiriau allweddol**: diwygiadau, Llywodraeth Cymru, cymunedau dysgu, Addysg Gychwynnol i Athrawon

---

*Yr angen am newid*

Fel Pennaeth, roeddwn yn ymwybodol iawn o awydd athrawon i wella dealltwriaeth o'u harferion addysgegol eu hunain; dealltwriaeth sy'n seiliedig ar waith ymchwil ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Awydd llawer ohonom yw darparu addysg o ansawdd uwch ar gyfer plant trwy ymarfer rhagorol, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a gwybodaeth



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 285 12/05/2020 09:28

ddamcaniaethol. Roedd angen hyn ar lefel system er mwyn darparu fframwaith cydlynus i ail-broffesiynoli'r gweithlu yn ei gyfanrwydd; mae'n bwysig iawn wrth weithio gydag athrawon newydd. Yn Ysgol Bryn Elian, roeddem wedi gweithio â phartneriaid amrywiol ar astudiaethau ymchwil, ond yn benodol roedd gennym berthynas dda â Phrifysgol Bangor ers 2004. Roedd ein prosiectau ar y cyd yn canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr penodol, a dyfnhau gwybodaeth ein hathrawon. Felly, mae'r cyfleoedd sydd wedi'u rhoi i ni gyfundrefnu'r bartneriaeth hon trwy'r diwygiadau i Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) (Furlong, 2015) wedi bod yn estyniad naturiol ac yn ddull a groesawir o atgyfnerthu ein perthynas bresennol.

Fel ysgol a oedd wedi hyfforddi athrawon ers cryn amser, roeddem yn teimlo bod yna diffyg cysylltiad rhwng yr hyn yr oedd angen i ni ei wneud i hyfforddi a mentora athrawon newydd a'r hyn y byddai'r system yn ei ganiatáu. Roeddem eisiau datblygu perthynas agosach a mwy ystyrlon ag athrawon dan hyfforddiant yn hytrach na bod yn sefydliad hyd braich sy'n lletya gwesteion byrhoedlog. Roedd yn ymddangos i ni fod yr hen system â'i gofyniad i athrawon newydd wahaniaethu 'damcaniaeth' ac ymarfer bob dydd yn yr ysgol yn ddatgysylltiad anghyfforddus nad oedd yn helpu'r sefyllfa. Yn wir, roedd gweledigaeth, cynnwys a methodolegau rhaglenni Prifysgolion yn anhysbys i ni i raddau helaeth, ac eto roeddem yn gosod yr athrawon newydd hyn yn ein hystafelloedd dosbarth i helpu gyda'u haddysg. O ganlyniad i'r 'datgysylltiad' hwn, roedd yn anochel bod rôl mentora yn y system wedi dod yn fwy bugeiliol na deallusol; roedd yn anodd darparu unrhyw beth ac eithrio cymorth arwynebol, er yn ofalgar, ar gyfer athrawon newydd, yr oedd disgwyl iddynt gysylltu dysgu a phrofiadau ar wahân yn gorff defnyddiol o ymarfer seiliedig ar dystiolaeth – sy'n ormod o dasg i unrhyw ymarferwyr newydd.

Felly, roeddem yn awyddus i ymgysylltu'n llawnach ag AGA, ond roeddem yn ymwybodol o'n dylanwad cyfyngedig oherwydd diffyg cydlyniad y system. Os oedd darlithwyr mewn sefydliadau addysg uwch (SAU) yn ymdrin ag elfennau damcaniaethol, a'r ystafell ddosbarth yn ymwneud â phrofiad addysgu yn unig, sut allem ni fel ysgol wybod beth oedd y disgwyliadau ar gyfer athrawon dan hyfforddiant? Yn sgil y diffyg gwybodaeth, fe aethom ati i gymhwyso ein dealltwriaeth ein hunain o ragoriaeth yn y proffesiwn addysgu yn erbyn y safonau gofynnol ar gyfer statws athro cymwysedig. Yn gyffredinol, roedd ein partneriaeth â darparwyr SAU yn un-dimensiynol ac yn drafodaethol, yn hytrach na defnyddio model o arbenigedd cyfartal, gyda'r ddwy ochr yn dysgu oddi



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 286 12/05/2020 09:28

wrth ei gilydd er mwyn meithrin ymarferwyr newydd o ansawdd uchel. Fodd bynnag, roeddem yn teimlo'n hyderus iawn bod ein hysgol yn amgylchedd dysgu rhagorol ar gyfer unrhyw athro newydd a bod gan ein staff lawer iawn o allu a gwybodaeth i'w rhannu. Fodd bynnag, roedd angen i'r system newid.

### *Datblygu'r rhaglen newydd*

Wrth roi'r dull gweithredu newydd ar waith ym maes AGA, rydym wedi gweithio'n agos iawn o'r cychwyn gyda phartneriaeth CaBan Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caer. Sefydlwyd CaBan fel menter ar y cyd rhwng y ddwy Brifysgol, y Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (Prifysgol Bangor), Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (GwE) ac ysgolion partner. Pan sefydlwyd y bartneriaeth, gofynnwyd i mi reoli'r prosiect o adeiladu a datblygu'r rhaglenni a'r bartneriaeth ei hun. O ganlyniad, datblygais ddealltwriaeth unigryw o gryfderau, heriau a photensial y bartneriaeth i wireddu gweledigaeth gyfoethog a chyffrous Furlong ar gyfer AGA. Gwnaethom gyfraniad sylweddol felly ar lefel strategol a gweithredol. Roeddem yn cyfrannu'n llawn at weithgareddau amrywiol gan gynnwys cyfrannu at gynnwys a datblygu modiwlau'r rhaglen AGA: marchnata, llunio cynlluniau busnes, ysgrifennu a gwirio cyflwyniadau'r rhaglenni, cyflwyno tystiolaeth i'r panel achredu a hyfforddi darpar ysgolion partner eraill.

Fel y nodwyd eisoes, roedd gennym berthynas hynod o gryf â Phrifysgol Bangor, a oedd wedi gweithio gyda ni i addysgu athrawon newydd yn ogystal â datblygu prosiectau ymchwil amrywiol ar hyd y blynyddoedd, cyn i'r diwygiadau hyn cael eu cyflwyno. Mae gan athrawon Ysgol Bryn Elian hanes llwyddiannus ym maes datblygiad proffesiynol iterus a sefydlu strategaethau ymchwil i sicrhau bod ymarfer addysgegol yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cychwyn yn yr ystafell ddosbarth. Hefyd, roedd gennym fantais sylweddol wrth baratoi i helpu i ddatblygu'r rhaglenni AGA hyn oherwydd ein partneriaeth â'r Ganolfan Defnyddio Ymchwil a Thystiolaeth mewn Addysg (CUREE), sy'n casglu tystiolaeth yn ymwneud â phrosesau dysgu effeithiol er mwyn llywio a gwella addysgu a dysgu.[1]

Felly, roedd llawer o athrawon yn Ysgol Bryn Elian eisoes yn mynd ati i wella eu gwybodaeth am eu pwnc a'u gwybodaeth addysgeg trwy bartneriaethau dysgu y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Ond roedd y diwygiadau i AGA yn ein hannog i gyfundrefnu arferion ymchwil, gan sicrhau ein bod



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 287 12/05/2020 09:28

yn edrych o'r newydd ar ddysgu ein disgyblion a'n dysgu ein hunain er mwyn sicrhau bod modd i ni fentora athrawon newydd a'u helpu i ddatblygu eu harbenigedd. Roedd ein dull gweithredu ym maes ymchwil yn seiliedig ar symleiddio'r broses a chanolbwyntio ar arferion a threfn integredig yn yr ystafell ddosbarth, yn hytrach na fel elfen ychwanegol ac ar wahân i waith yr athro o ddydd i ddydd. Rwy'n credu bod hwn yn un o gryfderau penodol yr ysgol, a'r diwygiadau AGA yn eu cyfanrwydd, gan fod seilwaith a diwylliant dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr o bob math (disgyblion ac athrawon fel ei gilydd) yn faes ffrwythlon i bob un ohonom. Felly, fel ysgol, roeddem wrth ein bodd yn gwneud cyfraniad allweddol at ddatblygu a gwella ein harferion ein hunain, gan weithio mewn partneriaeth agos â CaBan a darparwyr dysgu eraill.

Byddwn yn disgrifio ein gwaith ymgysylltu â phartneriaeth CaBan fel cyfoethog a dwys. Buan iawn roeddem yn trafod ein diffiniad ar y cyd o 'addysgu rhagorol' a sut y gellid defnyddio hyn i gynllunio rhaglenni, gan gychwyn gyda'n gweledigaeth ar gyfer athrawon newydd. Mewn geiriau eraill, sut y gallem ddiffinio ymarferydd rhagorol os yw'r broses hon yn llwyddo? Wedyn, gofynnwyd y cwestiwn 'sut y gallem gyrraedd y nod?' Roedd y cwestiynau hyn yn bwnc trafod i bob un ohonom, gan herio ein canfyddiadau o'r system flaenorol o hyfforddi athrawon newydd. Buan iawn y gwnaethom newid i fabwysiadu meddylfryd yr oeddem ni'n ei ystyried yn un newydd iawn a mwy cyffrous, gan adfyfyrio'n fanwl ar ein gwerthoedd a'n dyheadau fel partneriaeth. Adlewyrchwyd hyn wedyn yn y gwaith o ysgrifennu a chyflwyno'r rhaglen. Roedd y ddadl yn adfywiol ac yn gadarn o safbwynt deallusol, gan arwain at ddealltwriaeth gynyddol a chadarnhaol o'r hyn y gallai pob aelod o'r bartneriaeth ei gyfrannu a'i ddatblygu ymhellach.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i wynebu heriau sylweddol ar lefel ysgol a system. Mae'r argyfwng ariannu'n parhau i fod yn fygythiad mawr i'r broses o gyflwyno'r diwygiadau hyn, mewn ysgolion uwchradd yn arbennig. Roedd angen cyllid sbarduno a chyllid prosiect ar gyfer yr holl bartneriaid er mwyn datblygu gallu ac adnoddau digonol. Mae angen amser a chyllid ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol, gan gynnwys mentora, er mwyn sicrhau bod ysgol yn gallu cynnal ei hymrwymiad i addysg athrawon newydd ac athrawon presennol a datblygu'r dulliau cymorth mewnol ar gyfer darpariaeth. Mae'r costau yn sylweddol ar gyfer datblygu gallu i gyflwyno'r diwygiadau hyn. Hefyd, mae'n anochel y bydd yr heriau o ran denu athrawon i'r proffesiwn yn effeithio ar allu ysgol i fforddio i ymrwymo i ddatblygu polisi ac ymarfer yn ymwneud â chefnogi



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 288 12/05/2020 09:28

ac addysgu athrawon yfory. Mae arloesi a datblygu cyfalaf proffesiynol i greu system gyda'r gorau yn y byd yn gofyn am adnoddau sylweddol, ac nid ewyllys da yn unig.

Mae'r ddau faes hanfodol, cyllido a recriwtio, yn fygythiadau arwyddocaol posibl i'r broses o gyflwyno'r model newydd hwn. Mae'n amlwg bod SAU ac ysgolion yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol. Roedd y tensiwn hwn yn amlwg iawn wrth drafod sut y byddai arian yn cael ei rannu rhwng yr ysgolion a'r SAU ar ôl i'r athrawon newydd gyrraedd. Hefyd, roedd yn amlwg bod angen cyllid allanol y tu hwnt i gyllideb yr ysgol ei hun ar gyfer addysg, datblygu rhwydweithiau ymchwil ar draws ysgolion, a datblygu arbenigedd athrawon mewn swydd cyn mis Medi 2019.

Her ychwanegol oedd yr angen i ddatblygu rhaglenni cadarn a chydlynus yng nghyd-destun nifer o ddiwygiadau polisi arwyddocaol, gyda phob un yn datblygu ar gyflymder gwahanol. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys:

- cwricwlwm newydd nad yw wedi'i gwblhau'n llawn eto;
- safonau addysgu ac arweinyddiaeth proffesiynol newydd[2] er mwyn bodloni gofynion SAC;
- newidiadau mewn dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon mewn swydd a oedd wedi cyrraedd cam datblygu yn unol â fframwaith y cytunwyd arno;
- roedd y broses o ddatblygu rhaglenni mentora a hyfforddi, sy'n hanfodol i lwyddiant addysgu athrawon newydd, wedi cyrraedd cam cynnar iawn yn eu datblygiad yn genedlaethol;
- roedd rhaglenni cynefino yn parhau i berthyn i'r hen system, gan arwain o bosibl at ddiffyg cydlyniant ar ôl SAC (mae'r mater hwn yn cael ei ddatrys ar hyn o bryd);
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.[3]

Yn gryno, roeddem yn gweithio mewn tirwedd newidiol ac yn disgwyl gweld newid cysyniadol a diwylliannol mawr o ddibyniaeth i greadigrwydd ac arloesi, gan dderbyn ansicrwydd.

Ni ellir gorbwysleisio'r heriau arweinyddiaeth yn deillio o fabwysiadu'r agendau trawsnewidiol hyn, sydd weithiau'n anghyson. Fodd bynnag, roedd ein hagwedd optimistaidd fel ysgol ac o fewn partneriaeth CaBan yn parhau: roeddem yn cefnogi'r weledigaeth newydd ar gyfer diwygio'r broses o ddatblygu cyfalaf proffesiynol o'r athrawon cynharaf mewn



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 289 12/05/2020 09:28

partneriaeth ddiffuant ag ymarferwyr arbenigol mewn ysgolion a phrifysgolion. Yn ein barn ni, mae llwyddiant ein disgyblion yn dibynnu ar hyn.

*Ein dyheadau, ein cyflawniadau*

Mae manteision sylweddol eisoes wedi deillio o'n hymgysylltiad a'n hymrwymiad arwyddocaol i ddatblygu dull gweithredu newydd a mwy cydweithredol ym maes AGA a'n strwythurau cymorth mewnol ein hunain. Rwy'n mawr obeithio y bydd y broses hon yn parhau. Bydd ein proffesiwn hynod fedrus yn cael ei gryfhau os ydym yn helpu athrawon newydd i ddatblygu a dysgu am briodweddau cymhleth sgiliau athro rhagorol. I wneud hyn, mae angen i ni ddatblygu dealltwriaeth gyffredin a phenodol o wyddoniaeth, celf a chrefft addysgu, gan symud ymhell y tu hwnt i'r model derbynnydd goddefol o dan yr hen system. Wrth addysgu athrawon yfory, bydd athrawon mewn swydd yn dod yn ymarferwyr mwy adfyfyriol ac arbenigol: wrth wneud hynny, byddant yn gwasanaethu ein plant yn well hefyd.

Rydym yn cydnabod yn glir iawn bod datblygu athrawon yn un o swyddogaethau pwysicaf unrhyw ysgol, a bod pob un ohonom yn rhannu'r cyfrifoldeb. Diolch i'r bartneriaeth â'n Prifysgolion, mae gennym agwedd gyfunol, gydweithredol seiliedig ar dystiolaeth tuag at addysg athrawon. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod bod gennym gyfraniad cyfartal a gwerthfawr i'w wneud tuag at wireddu ein gweledigaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant a sicrhau manteision clir ar gyfer ein holl system addysg.

Yn y dyfodol, rydym yn gobeithio y bydd ein cynllun cyflawni ar gyfer y rhanbarth a Chymru yn sicrhau bod athrawon sy'n cael eu hyfforddi trwy bartneriaeth CaBan yn ddysgwyr adfyfyriol a hunanfeirniadol sy'n deall gwerth arferion ymchwil seiliedig ar dystiolaeth. Byddant yn datblygu'n athrawon sy'n defnyddio tystiolaeth ddamcaniaethol gadarn fel cynhyrchwyr a defnyddwyr ymchwil, er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer ein plant a gan ein plant. Byddant yn ysgolheigion eu crefft. Mae gwybodaeth fanwl am bynciau a gwybodaeth addysgeg fanwl yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ansawdd y cyfarwyddyd yn cyfateb i anghenion plant. Rwyf am sicrhau bod yr athrawon newydd yn y system yn parhau i fod yn optimistaidd a gwybod eu bod yn weithwyr proffesiynol a werthfawrogir oherwydd bod ganddynt y gallu i ddatblygu, tyfu, gweld eu heffaith eu hunain ar ein plant a chofio'n gyson am yr hyn sydd wedi'u cymell i ymuno â'r proffesiwn gwych hwn. Rwyf am i'r rhaglenni rydym wedi'u llunio ar



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 290 12/05/2020 09:28

y cyd herio'r athrawon newydd yn ddeallusol, ac iddynt deimlo'r wefr o sbarduno diddordeb plentyn a oedd yn amharod i ddysgu cynt. Rwyf am iddynt ddeall bod datblygu perthynas gadarnhaol â'r bobl ifanc hyn yn hanfodol er mwyn ysbrydoli, meithrin a datblygu'r genhedlaeth nesaf o athrawon, meddygon a gweithwyr proffesiynol, ym mha faes bynnag. Rwyf am iddynt ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn gweithio yng Nghymru a mwynhau ei hiaith a'i diwylliant. Mae'n bwysig bod y genhedlaeth newydd hon o athrawon yn profi parhad a chydlyniad ein system addysg, lle mae eu dysgu cyfoethog fel myfyrwyr a'u hawydd i barhau i ddatblygu eu gwybodaeth yn eu hysbrydoli i ddewis addysgu fel eu gyrfa gydol oes.

## *Cyfeiriadau*

Llywodraeth Cymru (2017). *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Gw. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018–03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf (cyrchwyd 23 Medi 2019).

## *Nodiadau*

1 *http://www.curee.co.uk/what-we-do* (cyrchwyd 23 Medi 2019).
2 Cyhoeddwyd y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ym mis Medi 2017.
3 Pasiwyd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar 12 Rhagfyr 2017.



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 291 12/05/2020 09:28

# *Adfyfyrio ar fentora a datblygu partneriaeth ysgol-prifysgol yn ne orllewin Cymru*

RHONWEN MORRIS
*Pennaeth Cynorthwyol ac Uwch Fentor yn Ysgol y Preseli, Sir Benfro*

## CRYNODEB

Mae'r diwygiadau newydd ym maes Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yng Nghymru yn dwyn damcaniaeth, gwaith ymchwil ac ymarfer yn yr ystafell ddosbarth ynghyd trwy gydweithredu agosach rhwng ysgolion a phrifysgolion (Furlong, 2015). Gall hyn drawsnewid partneriaethau AGA wrth i ddarlithwyr, athrawon a mentoriaid ddatblygu gweledigaeth ac arferion cyffredin er mwyn gwella ansawdd gwaith paratoi athrawon. Yn y papur hwn rwy'n adfyfyrio ar fy nhaith fy hun fel mentor a'r heriau a'r posibiliadau sy'n deillio o bartneriaeth newydd o'r fath.

**Geiriau allweddol**: mentora, cydweithredu, cyd-awduro, ymchwil, Addysg Gychwynnol i Athrawon

---

### *Cyflwyniad*

Mae fy swyddogaethau a chyfrifoldebau fel mentor athrawon dan hyfforddiant wedi esblygu gydol fy ngyrfa, o'r dyddiau cynnar wrth adael i athrawon dan hyfforddiant fy nghysgodi yn yr ystafell ddosbarth i fod yn fentor pwnc ac yna'n uwch fentor. Ar y cychwyn, roeddwn yn credu mai prif swyddogaeth mentor oedd 'dangos' i athrawon dan hyfforddiant 'sut i wneud y gwaith'; erbyn hyn, rwy'n credu mai prif ddiben y swyddogaeth yw cynorthwyo myfyrwyr i fod yn ymarferwyr effeithiol, adfyfyriol. Er fy mod yn cydnabod bod pob athro yn gwneud cyfraniad unigol, un ffordd



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 292 12/05/2020 09:28

yn unig sydd o fesur llwyddiant y mentor, sef pa mor dda y mae'r mentor a'r sawl sy'n cael ei fentora yn cydweithio ar lefel broffesiynol ac yn meithrin perthynas gadarnhaol lle mae'r naill a'r llall yn dysgu.

### *Pryderon cynnar*

Roedd diffyg arweiniad a chymorth cychwynnol i ddatblygu mentoriaid llwyddiannus yn bryder yn ystod dyddiau cynnar mentora. Byddai Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) yn cynnal cyfarfodydd blynyddol yn amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau mentoriaid, ond roedd yn anodd sicrhau cysondeb rhwng ysgolion gan fod athrawon dan hyfforddiant yn cael eu mentora mewn ffyrdd gwahanol iawn. O ganlyniad, roedd yn anodd sicrhau cysondeb o ran mentora rhwng un cyfnod profiad ysgol a'r nesaf. Ychydig iawn o ymarfer da a oedd yn cael ei rannu, ac nid oedd llawer o gyfleoedd i arsylwi ar fentora da mewn ysgolion; roedd angen mynd i'r afael â hyn. Yn ystod fy ngyrfa gynnar fel mentor pwnc ac uwch fentor mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn ardal wledig, roeddwn yn dilyn fy nhrywydd fy hun, gan ddefnyddio fy mhrofiad blaenorol o gael fy mentora yn ogystal â dibynnu ar lawer o fentoriaid dylanwadol a chefnogol. Fodd bynnag, nid oeddwn yn gwybod llawer am fentora llwyddiannus ac effeithiol. Nid mentora oedd hyn mewn gwirionedd, ac nid oeddwn yn meistroli'r grefft o addysgu athrawon.

Mae'n amlwg bod ochr fugeiliol gwaith mentora'n gyfrifoldeb pwysig er mwyn cynnig cymorth ac arweiniad emosiynol i'r rhai sy'n cael eu mentora yn ôl yr angen. Fodd bynnag, un o'r heriau yw sicrhau nad yw mentora o'r fath yn arwain at feithrin unigolion sy'n gofyn am sicrwydd o hyd, sydd angen arweiniad yn gyson ac sydd wedi mabwysiadu agwedd 'dangoswch i mi beth i'w wneud' at addysgu. Yn fy marn i, ni fydd hyn yn datblygu'r cadernid, y dyfalbarhad, y meddwl annibynnol na'r adfyfyrio beirniadol sydd eu hangen ar athrawon dan hyfforddiant i lwyddo yn yr ystafell ddosbarth a'r proffesiwn. Er bod arweiniad yn allweddol bwysig yn y dechrau, yn debyg i linynnau pyped, mae'n rhaid torri'r llinynnau fesul un ac mae'n rhaid i'r athro dan hyfforddiant reoli'r broses fwyfwy. Bydd mentor llwyddiannus yn gadael i athrawon dan hyfforddiant 'dorri eu llinynnau eu hunain' trwy sicrhau eu bod yn gallu adfyfyrio ar eu hymarfer eu hunain trwy ddeialog broffesiynol. Mae bod yn fentor yn golygu llawer mwy na dim ond dilyn cyfarwyddiadau llawlyfr. Mae hyfforddiant yn hanfodol er mwyn sicrhau gwaith mentora effeithiol a chyson sy'n cael dylanwad mawr.



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 293 12/05/2020 09:28

Mae'n rhaid i fentor adael i athrawon dan hyfforddiant fod yn greadigol, cymryd risgiau cymedrol a gwneud camgymeriadau. Ond mae'n rhaid i fentor llwyddiannus gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i gydnabod eu camgymeriadau, dysgu'r gwersi a gadael iddynt ddatblygu eu cadernid mewn proffesiwn sy'n heriol ond sy'n rhoi boddhad.

### *Cysylltu damcaniaeth ac ymarfer trwy fentora effeithiol*

Yn fy marn i, roedd diffyg meddwl cydgysylltiedig rhwng SAU ac ysgolion wedi creu problem gymhleth. Roedd athrawon dan hyfforddiant yn cael eu trwytho mewn gwybodaeth ddamcaniaethol cyn dechrau ymarfer yn yr ystafell ddosbarth, ac roedd y cysylltiad annatod rhwng gwybodaeth ac ymarfer yn cael ei anwybyddu i raddau helaeth. Wrth ymarfer yn yr ystafell ddosbarth, roedd yn ymddangos bod athrawon dan hyfforddiant yn anghofio am yr hyn a addysgwyd yn y brifysgol. Ar ôl cael eu rhoi yn yr ystafell ddosbarth heb eu paratoi'n ddigonol, byddai athrawon dan hyfforddiant yn diystyru gwybodaeth ddamcaniaethol er mwyn 'goroesi' gwersi. Un ffactor posibl oedd y diffyg arweiniad a ddarparwyd. Roedd diffyg cysylltiad rhwng y brifysgol ac ymarfer mewn ysgol yn amlwg. O ganlyniad, roedd angen model AGA newydd yng Nghymru. Mae *Addysgu Athrawon Yfory* (Furlong, 2015) yn cyfeirio at ddatblygu 'ymarfer clinigol' mewn ysgolion fel ateb posibl. Yn y model hwn o AGA:

> Maen nhw'n mentora'n ofalus ac yn datblygu profiadau addysgu'r myfyrwyr yn raddol. Ond yn ychwanegol fodd bynnag, mae'r rhaglenni hyn yn rhoi cyfleoedd cyson i'r athrawon dan hyfforddiant gysylltu'r profiad ymarferol y maen nhw'n ei ddatblygu yn yr ysgol â mathau eraill o wybodaeth broffesiynol – sef ag ymchwil, â theori ac â gwybodaeth am ymarfer mewn cyd-destunau eraill. (Furlong, 2015: 17).

Rwyf wedi adfyfyrio ar y model hwn ac ar fy mhrofiadau, gan ddod i'r casgliad nad yw mentor yn gallu mentora'n effeithiol heb wybod am yr hyn a addysgwyd yn y brifysgol cyn y cyfnod o ymarfer addysgu. Yn hanesyddol, roedd diffyg cysylltiad a diffyg addysgu a mentora cydweithredol wedi arwain at arweiniad ac addysgu anghyson yn aml, gan adael rhai athrawon dan hyfforddiant mewn cyflwr o ddryswch a phenbleth wrth geisio ymdopi â chromlin ddysgu sydd eisoes yn heriol a chymhleth.



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 294 12/05/2020 09:28

O ganlyniad, nid oedd athrawon yn barod i gamu i'r proffesiwn. Roedd yn creu ymdeimlad o banig a methiant, ac yn fy marn i arweiniodd hynny at lawer o athrawon newydd gymhwyso yn gadael y proffesiwn ymhen ychydig flynyddoedd. Mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar y proffesiwn, ac mae recriwtio a chadw staff wedi dod yn bryder mawr i ysgolion sydd eisoes yn wynebu llawer o heriau.

Mae cyhoeddusrwydd gwael yn ymwneud â'r proffesiwn addysgu wedi cynyddu heriau recriwtio a chadw staff. Fel mentor, mae gen i brofiad personol o effeithiau niweidiol cyhoeddusrwydd gwael o'r fath, sydd wedi arwain at athrawon dan hyfforddiant yn ymuno â'r proffesiwn fel dewis olaf neu fel cynllun wrth gefn os nad oes cyfleoedd gyrfa eraill ar gael. Mae'n bwysig bod y proffesiwn yn denu athrawon sydd wedi ymrwymo i'r grefft o addysgu, sy'n awyddus i ddarparu addysg o'r radd flaenaf ac sydd am sicrhau bod pob disgybl yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i lwyddo mewn byd hynod newidiol a heriol.

Mae addysg yn broffesiwn sy'n newid yn barhaus, ac mae angen cenhedlaeth o athrawon cydnerth sy'n croesawu newid. Mae angen i raglenni AGA annog athrawon i archwilio a datblygu eu hymarfer seiliedig ar ymchwil (Malinen *et al*., 2012). Mae'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru yn wynebu'r newid mwyaf mewn cenhedlaeth, ac oherwydd hynny mae angen ystyried her sy'n gymhleth ond sy'n rhoi boddhad mewn ffordd ddeallus. Mae angen meddwl cydgysylltiedig, cyd-awduro a chydberchenogaeth yng nghyd-destun model newydd ar gyfer AGA er mwyn sicrhau cysondeb rhwng ymarferwyr a mentoriaid o bob math wrth i ni nesáu at gwricwlwm newydd sy'n rhoi lle canolog i ddysgwyr unigol ac addysgeg.

### *Dechrau cyd-awduro*

Felly, roedd yn hollbwysig dwyn cyfoeth o arbenigedd a gwybodaeth ddamcaniaethol ynghyd o ysgolion a'r brifysgol er mwyn cyd-awduro rhaglenni AGA. Yn fy achos i, dechreuodd y broses hon bron i bedair blynedd yn ôl pan ofynnodd y consortia i mi fynychu cyfarfod i drafod dyfodol AGA. Roedd yn amlwg bod SAU ac ysgolion yn rhannu'r un pryderon, ac er bod pawb yn ymfalchïo yn eu cyfraniad at AGA, roedd y bylchau mewn darpariaeth yn amlwg. Roedd angen cyd-awduro a chydweithio, a dechreuodd Partneriaeth Dysgu Proffesiynol esblygu. Ers y dyddiau cynnar hynny yn 2015, pan oedd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ein hannog fel ysgol i dreialu prosiect AGA, mae'r broses



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 295 12/05/2020 09:28

cyd-awduro a chydweithio rhwng ysgolion a'r brifysgol wedi tyfu a chryfhau. Roedd ymarfer seiliedig ar ymchwil yn ganolog i'r prosiect peilot ac roedd yr holl ymarferwyr yn rhan o'r gwaith datblygu cynnar. Roedd y broses o rannu ymarfer da yn cael ei hannog, a dechreuodd ysgolion a'r brifysgol fel ei gilydd ddatblygu gweledigaeth ac amcan cyffredin.

O ganlyniad, dysgais lawer am swyddogaethau a chyfrifoldebau gwirioneddol mentoriaid llwyddiannus athrawon dan hyfforddiant. Daeth yn rhan annatod o'm datblygiad proffesiynol i fy hun, a datblygiad proffesiynol staff addysgu o bob math. Mae athrawon a mentoriaid yn dysgu trwy'r amser, a gallwn ddysgu llawer oddi wrth ein gilydd.

### *Y model cydweithredol – datblygu mentora trwy gyd-awduro*

Gydol 2016, roedd model cydweithredol y Bartneriaeth Dysgu Proffesiynol yn parhau i ddatblygu, ac roedd y broses o gysylltu hyfforddiant mewn ysgolion ac yn y brifysgol yn dod yn rhan annatod o AGA. Roedd y prosiect yn dathlu'r arbenigedd sy'n bodoli yn y Bartneriaeth, a'r angen i ddatblygu dulliau o wneud y defnydd gorau posibl o'r arbenigedd er budd ein hathrawon dan hyfforddiant a dysgwyr ac er budd mentoriaid, addysgwyr athrawon a'r proffesiwn yn ei gyfanrwydd. Cydnabuwyd bod angen ysgogi addysgwyr athrawon i ddysgu am y wybodaeth sydd ar gael, a'i defnyddio, er mwyn cryfhau eu hysgolheictod eu hunain (Lunenberg *et al.*, 2014).

Roedd angen dull gweithredu mwy effeithiol ar gyfer data y brifysgol ar ei hathrawon dan hyfforddiant. Gwelwyd hyn fel modd o osod targedau mwy ystyrlon a phenodol i gefnogi cynnydd. Cafwyd cydweithio agos rhwng mentoriaid y brifysgol a mentoriaid ysgolion, gyda'r ysgolion yn cael eu hannog i dderbyn cyfrifoldeb arweiniol am agweddau allweddol ar y rhaglen hyfforddi, gyda phwyslais ar atebolrwydd yn arwain at fentora o'r safon uchaf.

Roedd ymarfer seiliedig ar dystiolaeth, ymchwil a gwaith paratoi trylwyr yn hanfodol ar gyfer darpariaeth fentora sy'n arwain at effaith fesuradwy. Y cam cyntaf oedd sefydlu rhwydwaith effeithiol o ysgolion o dan arweiniad Ysgol y Preseli (un o nifer o Ysgolion Partner Arweiniol) a fyddai'n gweithio gyda'r brifysgol i gyd-awduro seminarau wythnosol yn seiliedig ar wybodaeth ddamcaniaethol ac ymarfer ystafell ddosbarth. Roedd y seminarau mentora'n gyfle i wella sgiliau staff ysgolion trwy rannu ymarfer da a sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn derbyn y



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 296 12/05/2020 09:28

cymorth gofynnol. Er nad oedd ymdeimlad o 'ni a nhw' mwyach ymysg yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y prosiect peilot cychwynnol, roedd angen ymestyn yr hyfforddiant i ragor o ysgolion y Bartneriaeth. Roedd angen mynd i'r afael â'r her hon er mwyn sicrhau llwyddiant y model cydweithredol. Felly, ym mis Mai 2016, cyflwynwyd canfyddiadau'r prosiect peilot i holl ysgolion y Bartneriaeth, gan gynnwys ei effaith ar yr athrawon dan hyfforddiant a'r safonau addysgu a dysgu, yn ogystal â'r manteision i'r brifysgol a'r ysgolion o weithio yn y modd hwn. Ar ôl hynny, cytunwyd ar yr amcanion a chyfeiriad y dyfodol, a sefydlwyd Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa (PDPA) gyda chyd-awduro ac ymchwil yn ganolog iddi.

Cynigiwyd Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer Grŵp Arweinyddiaeth Strategol a Bwrdd Gweithredol Cysgodol PDPA. Roedd y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol yn cynnwys staff y brifysgol a chynrychiolwyr o Ysgolion Partner Arweiniol tra bod y Bwrdd Gweithredol Cysgodol yn cynnwys grŵp llai o gynrychiolwyr allweddol, gan gynnwys naw o Ysgolion Partner Arweiniol a Chyfarwyddwyr yr Athrofa. Golygai hyn fod dwy haen o lywodraethu wedi'u sefydlu a bod pob un o'r Ysgolion Partner Arweiniol wedi'u cynrychioli. Roedd eu mewnbwn i'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol yn hollbwysig i'r Bwrdd Gweithredol Cysgodol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau. Trwy'r dull didwyll a thryloyw hwn o wneud penderfyniadau, lluniwyd rhaglenni a oedd yn canolbwyntio ar gynnydd disgyblion. Gofynnwyd i Ysgolion Partner Arweiniol gymryd rhan yn y broses ddilysu. Sefydlwyd gweithgorau, a rhannwyd ac adfyfyriwyd ar y prosiectau peilot y bu'r Ysgolion Partner Arweiniol yn ymgymryd â nhw. Dechreuodd rhwydweithiau o ysgolion esblygu. Daeth Ysgolion Partner Arweiniol yn fwy atebol, gan arwain y gwaith o fentora athrawon dan hyfforddiant yn ogystal ag arwain ymarfer ysgolion partner yn eu rhwydweithiau, gan sicrhau dull mentora mwy cyson ac effeithiol.

Erbyn hyn, mae'r brifysgol ac Ysgolion Partner Arweiniol yn ystyried bod mentoriaid yn cefnogi ac yn herio'r broses, a'u bod yn gwneud gwaith pwysig yn datblygu hunaniaeth broffesiynol bersonol athrawon dan hyfforddiant (McDonald, 2009). Mae hon yn enghraifft o gyd-awduro gwirioneddol, proses a ddatblygwyd dros nifer o flynyddoedd gyda'r ysgolion a'r brifysgol yn ymgymryd â rôl arweiniol. Daeth ymdeimlad cyffredin o gyfrifoldeb ac atebolrwydd i'r amlwg, ac yn y pen draw bu modd cael gwared ar y teimlad hanesyddol o 'ni a nhw' yn ystod y broses achredu a oedd â'r nod o godi safonau AGA yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2018).



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 297 12/05/2020 09:28

*Casgliad*

Mae'r broses o ddwyn cyfoeth o arbenigedd a gwybodaeth ddamcaniaethol ynghyd i gyd-awduro rhaglenni AGA sy'n addas i'r diben wedi bod yn hollbwysig. Mae Ysgol y Preseli, ynghyd ag Ysgolion Partner Arweiniol eraill, wedi datblygu dealltwriaeth fanwl o ystyr AGA sy'n addas i'r diben. Mae'r rhaglen fentora a ddatblygwyd gan yr Athrofa wedi darparu gwybodaeth a phrofiad helaeth i fentoriaid er mwyn sicrhau bod mentora AGA yn llwyddiannus. Bydd atebolrwydd a rennir a'r broses o ddatblygu rhwydweithiau ysgolion yn galluogi'r Athrofa i barhau i rannu ein gweledigaeth ar gyfer AGA ledled ysgolion y bartneriaeth, gan arwain at fentora o ansawdd uchel ymysg holl bartneriaid rhaglenni AGA PDPA. Gobeithir y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar athrawon dan hyfforddiant a mentoriaid. Trwy sicrhau mwy o eglurder a chysondeb o ran mentora, cydgysylltu gwybodaeth ddamcaniaethol ac ymarfer yn yr ystafell ddosbarth, a datblygu ymagweddau ymchwil, dylid sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant, addysgwyr athrawon ac ysgolion yn gallu datblygu dealltwriaeth fanwl o addysgu wrth i ni ymrwymo i'r *Dyfodol Llwyddiannus* (Donaldson, 2015) a chymryd cam hirddisgwyliedig ymlaen yn nhermau addysg. Bydd yr Athrofa a'i staff yn parhau i gydweithio ag ysgolion, gan sicrhau bod athrawon heddiw ac yfory yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i lwyddo mewn gyrfa sy'n wynebu newid mawr. Bydd ymarfer adfyfyriol pawb yn hollbwysig wrth i raglenni gael eu cyflwyno.

O'n rhan ni, mae Ysgol y Preseli yn gweithio mewn partneriaeth â'r Athrofa er mwyn ceisio sicrhau bod pob disgybl yn gwireddu ei botensial gwirioneddol – yn academaidd, yn gymdeithasol ac yn nhermau datblygiad personol – mewn cymuned ddwyieithog. Rydym yn rhannu'r un datganiad cenhadaeth â'r Brifysgol wrth fentora a hyfforddi athrawon fel modd o sicrhau bod pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yn derbyn y cyngor, yr arweiniad a'r profiad gorau i'w galluogi i wireddu eu potensial. Gyda'n gilydd, rydym yn cydnabod bod angen darparu hyfforddiant o'r safon uchaf er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn yr addysg orau gan athrawon ar adegau gwahanol o'u gyrfa (athrawon dan hyfforddiant, athrawon newydd gymhwyso ac athrawon profiadol) sy'n rhannu'r un weledigaeth.



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 298 12/05/2020 09:28

## *Cyfeiriadau*

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Furlong, J. (2015) *Addysgu Athrawon Yfory.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Lunenberg, M., Dengerink, J., a Korthagen, F. A. J. (2014). *The Professional Teacher Educator: Roles, Behaviour, and Professional Development of Teacher Educators.* Rotterdam: Brill | Sense.

Llywodraeth Cymru (2018). *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Addysgu athrawon yfory.* Gw. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/meini-prawf-ar-gyfer-achredu-rhaglenni-addysg-gychwynnol-athrawon-yng-nghymru.pdf (cyrchwyd 23 Medi 2019).

Malinen, O., Väisänen, P. a Savolainen, H. (2012). 'Teacher education in Finland: a review of a national effort for preparing teachers for the future'. *The Curriculum Journal*, 23 (4), 567–84.

McDonald, L. (2009). *Responsiveness of Student Teachers to the Supervision of Associate Teachers.* Gw. www.leeds.ac.uk/educol/documents/183638.doc. (cyrchwyd 23 Medi 2019).

# *Addysgu athrawon dan hyfforddiant gyda'n gilydd: cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu*

JON MURPHY
*Pennaeth, Ysgol Gynradd Llanffwyst Fawr, Y Fenni*

CRYNODEB

Mae newidiadau heb eu tebyg ar waith ym mhob rhan o'r system addysg yng Nghymru, a bydd y newidiadau hyn yn trawsnewid beth rydym yn ei addysgu a sut rydym yn addysgu. Mae canlyniadau ac argymhellion adroddiad Donaldson (2015) ac adroddiad Furlong (2015) wedi bod yn gatalydd ar gyfer diwygiadau addysgol, gan greu cyfle unigryw, unwaith mewn oes o bosibl, i gysoni ymarfer rhwng ysgolion a phrifysgolion ym maes Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA). Fel uwch arweinydd sydd wedi ymwneud â phartneriaethau prifysgol ers blynyddoedd lawer, rwyf wedi bod yn dyst i'r cyflymu diweddar yn esblygiad darpariaeth AGA yng Nghymru. Yn yr erthygl gryno hon, rwy'n adfyfyrio ar hyn ac yn trafod fy nghyfraniad at gynllunio ar gyfer partneriaeth AGA gref a dilys rhwng ysgolion a phrifysgolion.

**Geiriau allweddol**: diwygio, athrawon dan hyfforddiant, Addysg Gychwynnol i Athrawon, partneriaeth â phrifysgol

---

*Cyflwyniad*

Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru wedi creu agenda gyffredinol sy'n destun cydweithio ystyrlon rhwng prifysgolion ac ysgolion. Mae datblygu'r bartneriaeth hon wedi creu cyfleoedd cydweithredol ar gyfer cydweithio ac wedi gwella arbedion maint trwy gyfuno a rhannu gwybodaeth a



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 300 12/05/2020 09:28

sgiliau rhwng gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion a phrifysgolion. Ar lefel strategol, mae arweinwyr ysgolion wedi cael gwahoddiad i ddod yn aelodau llawn o Fyrddau Gweithredol a Byrddau Strategol AGA, gan ddylanwadu ar gynnwys a darpariaeth cyrsiau. Ar lefel weithredol, mae staff ysgolion wedi dod yn Gydgysylltwyr a Hyrwyddwyr Ymchwil AGA, gan ddysgu mwy am sut mae prifysgolion yn gweithredu. Mae cyrsiau wedi'u cyd-awduro rhwng gweithwyr proffesiynol mewn prifysgolion ac ysgolion ac mae rhaglenni wedi'u cysoni i sicrhau bod damcaniaeth addysg yn cael ei rhoi ar waith yn ymarferol. Yn gyffredinol, felly, mae gwella'r bartneriaeth wedi arwain at ddull cydlynol o ddatblygu gweithlu'r dyfodol ar gyfer ein hysgolion.

### *Recriwtio a datblygu'r unigolion gorau*

Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth yn un o'r cyfrifoldebau mwyaf sy'n wynebu arweinwyr ysgolion. Mae llawer yn y fantol wrth gyflogi athrawon, ac mae angen sicrhau mai dim ond yr ymarferwyr gorau sy'n gweithio yn yr ystafell ddosbarth i ddarparu'r addysg orau bosibl ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn gwella eu cyfleoedd bywyd. Wrth i'r disgwyliadau gynyddu'n gyson ar gyfer athrawon dan hyfforddiant a fydd yn ymuno â phroffesiwn heriol, mae prosesau recriwtio mewn prifysgolion wedi mynd yn fwyfwy cadarn. Erbyn hyn, mae uwch arweinwyr a mentoriaid ysgolion yn gwneud cyfraniad llawn at y broses ddethol. Mae'r ymgeiswyr newydd ar gyfer cyrsiau AGA wedi dangos eu bod yn unigolion brwdfrydig sy'n meddu ar y cymwysterau priodol ac sydd â'r potensial i ragori yn y proffesiwn y maent wedi'i ddewis. Bydd AGA yn gwneud cyfraniad allweddol at baratoi myfyrwyr ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae'n amlwg erbyn hyn bod perthynas symbiotig rhwng AGA ac ysgolion yn hollbwysig er mwyn sicrhau ein bod yn recriwtio'r unigolion gorau ac yn cydweithio'n broffesiynol i ddatblygu athrawon o'r safon uchaf gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ein gofal yn derbyn yr addysg orau mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae disgwyliadau ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru yn uchel iawn, ac mae gweithwyr addysg proffesiynol yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb ac atebolrwydd nag erioed o'r blaen. Wrth weithio'n agos gyda staff y brifysgol ac athrawon dan hyfforddiant, rwy'n teimlo'n optimistaidd ac yn obeithiol iawn am y dyfodol



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 301 12/05/2020 09:28

wrth i ni feithrin y genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol a fydd yn cyffroi, yn addysgu ac yn ysbrydoli plant a phobl ifanc yfory.

Wrth weithio ochr yn ochr ag athrawon dan hyfforddiant yn y brifysgol ac yn ystod lleoliadau ysgol, rwyf wedi sylwi arnynt yn ymateb yn dda i'r heriau sy'n ein hwynebu; mae'n rhaid canmol eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Heb os, mae prifysgolion yn pwysleisio'r angen i fyfyrwyr fod yn ddysgwyr cryf sy'n gallu addasu i newidiadau er mwyn bodloni gofynion tirwedd addysgol sy'n newid yn gyson. Yn y cyswllt hwn, mae athrawon dan hyfforddiant yn esiamplau i eraill gan eu bod yn ymgorffori'r union briodweddau y gobeithir eu trosglwyddo i blant a phobl ifanc yn ein gofal.

### *Dysgu gyda'n gilydd*

Yr athrawon dan hyfforddiant sy'n cael eu meithrin gennym heddiw fydd yr arloeswyr a fydd yn rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith adeg ei gyflwyno yn 2022. Oherwydd yr addysgeg wahanol angenrheidiol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd, am y tro cyntaf mewn hanes diweddar, bydd y garfan bresennol o athrawon dan hyfforddiant yn ymuno â'r proffesiwn yn gydradd â'u cydweithwyr profiadol bron iawn o safbwynt eu sgiliau a'u gwybodaeth am y cwricwlwm newydd. Mae gwybodaeth athrawon dan hyfforddiant, staff ysgolion a darlithwyr prifysgol am y Cwricwlwm newydd i Gymru yn debyg iawn. Maent yn cydweithio i gynllunio'r cwricwlwm newydd a datblygu mathau newydd o addysgeg er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae pawb wrthi'n dysgu sgiliau a gwybodaeth newydd ochr yn ochr â'i gilydd, gan ddatblygu eu crefft ar y cyd trwy gymryd rhan yn y rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus fwyaf erioed a welwyd yng Nghymru. Yn yr ysgol, mae dysgu wedi dod yn broses fwy dwyochrog, ac yn ogystal ag athrawon dan hyfforddiant yn dysgu oddi wrth ymarferwyr profiadol, mae staff ysgol yn dysgu llawer oddi wrth athrawon dan hyfforddiant.

Mae llawer o waith datblygu wedi'i wneud ar gyfer y cyrsiau AGA newydd a gyflwynwyd ym mis Medi 2019, ac mae'r broses achredu wedi cynnwys gwaith craffu manwl. Un elfen gyffrous o'r rhaglenni sydd newydd eu hachredu yw'r newidiadau arwyddocaol i'r dull o ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon dan hyfforddiant. Mae'r broses o greu Ysgolion Partner Arweiniol wedi bod yn arloesol. Yng nghynllun Partneriaeth Caerdydd, mae athrawon dan hyfforddiant yn derbyn 15 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol ar safleoedd ysgolion, yn



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 302 12/05/2020 09:28

ogystal ag astudio yn y brifysgol a chael mathau eraill o brofiad ysgol. Mae pob un o'r 15 diwrnod datblygu yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno fel cydweithrediad rhwng gweithwyr proffesiynol y brifysgol ac ysgolion, ac maent yn datblygu gwybodaeth a sgiliau mewn ffordd gynyddrannol. Mae elfennau o bob diwrnod datblygiad proffesiynol yn cynnwys astudio agwedd ar ddamcaniaeth addysgol cyn arsylwi wrth i'r syniadau hynny gael eu rhoi ar waith yn yr ystafell ddosbarth gyda phlant a phobl ifanc.

Fel rhywun a oedd yn ddigon ffodus i gymryd rhan yn y broses o dreialu'r dull gweithredu hwn, rwyf wedi gweld sut mae'n rhoi profiadau dysgu dilys i athrawon dan hyfforddiant. Yr hyn sy'n bwysig yw bod myfyrwyr yn deall perthnasedd eu hastudiaethau academaidd; maent yn deall diben yr hyn y maent yn ei wneud a pham y maent yn ei wneud. Fel sy'n wir am ddysgu da o bob math, mae perthnasedd yn arwain at ymgysylltu mwy helaeth. Mae staff ysgolion wedi sylwi ar y lefelau uchel o frwdfrydedd ac ymgysylltiad ymysg athrawon dan hyfforddiant pan fo'r ddamcaniaeth yn dechrau gwneud synnwyr wrth ei gweld ar waith yn yr ystafell ddosbarth.

## *Casgliad*

Erbyn hyn, mae athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru yn cael eu paratoi ar gyfer eu lleoliad addysgu cyntaf trwy ddysgu am y ddamcaniaeth addysgol ddiweddaraf, yn ogystal â thrwy ennill profiad o sut y mae'n trosglwyddo'n ymarfer. Mae'r cyrsiau AGA newydd yn edrych tua'r dyfodol, yn arloesol ac maent wedi'u cynllunio i ddarparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n hwyluso'r broses o baratoi athrawon dan hyfforddiant i gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Yn ystod lleoliad ysgol, nid dim ond efelychu'r ymarfer gorau y maent wedi arsylwi arno y mae athrawon dan hyfforddiant yn ei wneud; yn aml maent yn arddangos arloesedd a chreadigrwydd hefyd ar sail canlyniadau eu gwaith ymchwil weithredu eu hunain. Gyda'i gilydd, mae staff ysgolion, athrawon dan hyfforddiant a darlithwyr yn dysgu geirfa addysgol newydd sbon, ac mae dysgu ar y cyd yn arwain at ragor o sicrwydd. Rydym yn gobeithio y bydd y cyrsiau AGA newydd yn meithrin cenhedlaeth newydd o athrawon sy'n ystyried meddwl beirniadol ac ymchwil weithredu yn ail natur.

Wrth i ni baratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, rydym yn gwneud llawer mwy nag agor pennod newydd ym maes addysg – rydym yn dechrau ysgrifennu cyfrol newydd sbon. Oherwydd yr agenda



13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 303 12/05/2020 09:28

ddiwygio gyffredin y mae pob un ohonom yn mynd i'r afael â hi ar hyn o bryd, mae tebygrwydd trawiadol rhwng gweledigaethau a strategaeth ysgolion a phrifysgolion. Mae gwaith y ddau sefydliad yn adlewyrchu ei gilydd bron iawn wrth i ni geisio cyflawni'r un amcanion. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol oherwydd, yn y pen draw, mae AGA ac ysgolion yn rhannu'r un diben; rydym yn ceisio darparu'r addysg orau bosibl ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc. Gyda'i gilydd mae staff prifysgolion ac ysgolion yn gwneud cyfraniad allweddol at ddiwygio addysg yng Nghymru, gan fynd ati i gynllunio a datblygu strwythur addysg newydd a chyffrous. Ar hyn o bryd, mae cydweithwyr yn parhau i osod y sylfeini ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, gan ddefnyddio dull pwyllog a gofalus i sicrhau y byddant yn gallu cefnogi'r seilwaith sydd eto i'w sefydlu. Gyda'n gilydd rydym yn gofalu am blant yfory trwy fynd ati'n ofalus i baratoi athrawon dan hyfforddiant heddiw.

## *Cyfeiriadau*


Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus. Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Furlong, J. (2015) *Addysgu Athrawon Yfory: opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru




13 Furlong WJE 22/1 (Welsh).indd 304 12/05/2020 09:28